## Atodiad M: Enghraifft o broses blaenoriaethu

**Proses blaenoriaethu cynlluniau**

Datblygwyd y matrics sgorio isod ar sail y dull o weithredu a ddefnyddiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth bennu blaenoriaeth cynigion yn ei Gynllun Trafnidiaeth Lleol. Cafodd ei addasu'n wreiddiol o fatrics a ddatblygwyd gan Local Transport Projects Cyfyngedig yn rhan o'i waith ar Gynllun Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd. Roedd yr offeryn hwn wedi'i ddefnyddio o'r blaen hefyd gan grŵp Teithio Llesol Sewta gynt fel sail i'w broses ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau teithio llesol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae'r matrics yn cynnwys 26 o elfennau sgorio ar wahân sy'n gysylltiedig â'r buddion a'r gwelliannau o ran hygyrchedd y mae disgwyl i'r cynlluniau eu sicrhau. Mae'r matrics wedi'i fwriadu i fod yn fecanwaith i helpu awdurdodau lleol i bennu pa gynlluniau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf, ac a ddylai felly gael eu blaenoriaethu i'w datblygu a'u cyflawni.

Wrth bennu sgôr y cynlluniau, dylid asesu'r llwybr teithio ar sail ei allu i ddarparu ar gyfer y siwrnai gyfan, yn enwedig yn nhermau cysylltu â gwasanaethau a chyfleusterau. Mae manylion yn y tablau isod am y meini prawf sydd i'w cymhwyso wrth bennu sgôr ar gyfer pob elfen yn y matrics.

# Tabl M1: Enghraifft o Fatrics Ffactorau Blaenoriaethu

| Cynnig | | | Cost | Cost | chyflymderau ar y llwybr teithio presennol neu ar lwybr teithio gwahanol ar briffordd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a lleoliad y cynllun | | | Amcangyfrif o gost y cynllun (£,000) | Elfen arian cyfatebol (£,000) | Damweiniau cerddwyr a beicwyr o fewn y 3 blynedd diwethaf | Targed ar gyfer cyflymder traffig | Cyflymderau traffig gwirioneddol | Cyflymder uwchlaw'r targed |
| | Lleoliad | Disgrifiad byr | | | Cyfanswm | | Cyflymder au 85% | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |

| Mynediad at Gyfleusterau (0 i +2) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | Cyflogaeth | Siopau/Manwerthu/ Swyddfa bost | Cyfleuster hamdden/ Atyniad i ymwelwyr | Canolfan Gymunedol/ Eglwys | Cyfleuster Iechyd (Meddyg/Deintydd) | Cyfnewidfa drafnidiaeth | Ardal Fenter/Ardal Twf Lleol | Sgôr MALIC am fynediad at wasanaethau |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |

| Buddion i gerddwyr (-2 i +2) | | | | | Buddion i feicwyr (-2 i +2) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hwylustod | Hygyrchedd | Diogelwch | Cysur | Atyniad | Hwylustod | Hygyrchedd | Diogelwch | Cysur | Atyniad |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |

| Buddion ehangach | | | Risgiau rhag cyflawni (-2 i +2) | | | | Cyflawni | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Potensial ysgogi newid moddol | Effaith ar iechyd | Effaith ar ddefnyddwyr eraill y ffyrdd | Materion amgylcheddol | Materion tir | Caniatâd cynllunio | Ymgynghori | Pwynt asesu presennol | Pwynt asesu (ar ddiwedd blwyddyn ariannol y cais) | A ellir cyflawni'r cynllun fesul cam? (Y/N) | Sgôr am gyfleusterau | Sgôr am fuddion | Sgôr Risgiau rhag Cyflawni | SGÔR GYFFREDINOL |
| | | | | | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 |

## Tabl M2: Enghraifft o Fatrics Sgorio ar gyfer Blaenoriaethu

| | Mynediad at Gyfleusterau | | | Risgiau rhag Cyflawni | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad at Addysg, Cyflogaeth a gwasanaethau allweddol (pob math i'w sgorio ar wahân ar y ffurflen asesu)** | **Mynediad at gyfnewidfeydd trafnidiaeth pwysig (gorsafoedd bysiau/ trenau)** | **Y boblogaeth y bydd cynigion y llwybr teithio yn effeithio arni** | **Materion Amgylcheddol/ Ecolegol** | **Materion Tir** | **Caniatâd Cynllunio** | **Ymgynghori** |
| **2** | Y llwybr teithio yn darparu cyswllt di-dor â chyrchfannau o fewn 400m i'r llwybr teithio. | Y llwybr teithio yn darparu cyswllt di-dor â chyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus o fewn 400m i'r llwybr teithio. | Poblogaeth o 'x' o fewn 200m i gynigion y llwybr teithio | Dim materion amgylcheddol/ ecolegol neu'r materion wedi'u datrys. | Dim materion tir neu mae'r awdurdod lleol yn berchen ar y tir. | Dim angen cael caniatâd cynllunio neu mae caniatâd cynllunio wedi'i roi heb amodau. | Yr ymgynghori ac ymgysylltu wedi'u cwblhau. |
| **1** | Y llwybr teithio yn darparu cyswllt di-dor â chyrchfannau o fewn 800m i'r llwybr teithio. | Y llwybr teithio yn darparu cyswllt di-dor â chyrchfannau o fewn 800m i'r llwybr teithio. | Poblogaeth o 'x' o fewn 400m i gynigion y llwybr teithio | Materion amgylcheddol wedi'u nodi a ffordd i'w datrys wedi'i threfnu/ rhaglennu | Y tir yn eiddo i drydydd parti ond mae les/ trefniadau eraill wedi'u gwneud. | Rhoddwyd caniatâd cynllunio ond o dan amodau. | Ymgynghori'n ofynnol ac wedi'i raglennu. Nid yw'r cynllun yn debygol o fod yn ddadleuol. |
| **0** | Y llwybr teithio yn darparu cyswllt di-dor â chyrchfannau sydd fwy na 800m oddi wrth y llwybr teithio. | Y llwybr teithio yn darparu cyswllt di-dor â chyrchfannau sydd fwy na 800m oddi wrth y llwybr teithio. | Poblogaeth o 'x' o fewn 800m i gynigion y llwybr teithio | Materion amgylcheddol/ ecolegol wedi'u nodi | Mae'r cynllun yn galw am ddefnyddio tir trydydd parti ac mae'r perchennog tir wedi'i adnabod a thrafodaethau wedi dechrau | Mae angen cael caniatâd cynllunio – cyflwynwyd cais cynllunio. | Ymgynghori'n ofynnol ac wedi'i raglennu ond mae'r cynllun yn debygol o fod yn ddadleuol **neu** heb ei raglennu ac yn annhebygol o fod yn ddadleuol. |
| **-1** | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd. | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd. | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd. | Materion amgylcheddol/ ecolegol yn anhysbys | Mae'r cynllun yn galw am ddefnyddio tir trydydd parti ac mae'r perchennog tir | Mae angen cael caniatâd cynllunio – nid yw cais wedi'i gyflwyno. | Ymgynghori'n ofynnol a heb gael ei raglennu. Y cynllun yn debygol o fod yn ddadleuol. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | wedi'i adnabod ond ni sefydlwyd cyswllt | | |
| **-2** | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd. | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd. | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd | Amherthnasol | Mae'r cynllun yn galw am ddefnyddio tir trydydd parti ond mae'r perchennog tir yn anhysbys. | Caniatâd cynllunio wedi'i wrthod. | Amherthnasol |

## Tabl M3:  Enghraifft o System Sgorio Buddion

| | Hwylustod | Hygyrchedd | Diogelwch | Cysur | Atyniad | Effaith ar ddefnyddwyr eraill y ffyrdd | | Potensial ar gyfer ysgogi newid moddol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2** | • Y llwybr teithio yn uniongyrchol ar gyfer siwrneiau y mae disgwyl iddo ddarparu ar eu cyfer<br>• Y llwybr teithio yn wastad i bob pwrpas<br>• Nifer bach o bwyntiau oedi ar y llwybr teithio a/neu mae'n osgoi mannau oedi presennol | Mae'n darparu cyswllt gwell o lawer -<br>• ar hyd llwybr anffurfiol a nodwyd<br>• at gyrchfan(nau) allweddol<br>• rhwng dau lwybr cyswllt presennol<br>• i bontio bwlch presennol<br><br>Mae'r cynllun yn hollol hygyrch hefyd o'r holl strydoedd a safleoedd | Mae'n ymateb i hanes o nifer sylweddol o achosion o wrthdaro a gofnodwyd (4 mewn 3 blynedd, neu 2 achos o ladd neu anaf difrifol mewn 3 blynedd wedi'u hawgrymu) | Mae'n gwella cysur yn sylweddol (h.y. mae llain glustogi yn ei wahanu'n llwyr oddi wrth draffig, y llwybr teithio o fewn golwg i adeiladau, cyflymderau traffig isel etc.) | Mae'r cynigion yn gwella'r amgylchedd i feicwyr / cerddwyr yn sylweddol o ran estheteg, sŵn, ac ansawdd mannau cyhoeddus | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd | | **5** | Yn debygol o arwain at newid moddol sylweddol o'r car preifat i'r beic pedalau/ cerdded un ai o ganlyniad i'r cyswllt ffisegol **neu** am fod y llwybr teithio *o fewn* ardal lle mae rhaglen ar waith i newid ymddygiad e.e. Dewisiadau Doethach/ Beiciwch Hi |
| **1** | • Y llwybr teithio yn weddol uniongyrchol ar gyfer siwrneiau y mae disgwyl iddo ddarparu ar eu cyfer<br>• Graddiannau cymedrol yn | Mae'n darparu cysylltiadau gwell -<br>• ar hyd y llwybr anffurfiol a nodwyd<br>• at gyrchfan(nau) allweddol<br>• rhwng dau lwybr cyswllt presennol<br>• ar draws bwlch presennol<br>Hefyd gall wella'r hygyrchedd ychydig at | Mae'n ymateb i hanes o nifer llai o achosion o wrthdaro a gofnodwyd, neu deellir bod hanes o wrthdrawiadau yn y lleoliad sydd heb ei gofnodi'n llawn | Mae'n gwella cysur (h.y. mae'n darparu rhywfaint o wahanu oddi wrth draffig, cyflymderau traffig o lai na 20mya heb wahanu, gwelliannau i ddiogelwch personol fel teledu cylch cyfyng a goleuadau etc.) | Mae'r cynigion yn gwella'r amgylchedd i feicwyr / cerddwyr i raddau bach o ran estheteg, sŵn, ac ansawdd mannau cyhoeddus | Mae'n darparu rhywfaint o fudd ychwanegol i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd at ei gilydd (fel y byddai croesfan twcan yn gallu ei wneud i gerddwyr) | | **3** | Gall gynyddu niferoedd y beicwyr/cerddwyr ond mae'n annhebygol o arwain at newid moddol sylweddol o'r car preifat un ai o ganlyniad i waith ffisegol **neu** am fod y llwybr teithio yn *cysylltu* ag ardal sy'n elwa o raglen newid ymddygiad |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | unig sydd ar y llwybr teithio<br>• Mae rhai pwyntiau oedi ar y llwybr teithio a/neu mae'n lleihau oedi presennol | strydoedd a safleoedd eraill | | | | | | | |
| **0** | • Nid yw'r cynigion yn darparu mwy o hwylustod na'r sefyllfa bresennol | Nid yw'r cynigion yn gwella hygyrchedd | Ni ddisgwylir effaith ar wrthdrawiadau | Ni ddisgwylir gwelliant o ran cysur | Nid yw'r cynigion yn dod â dim neu nemor ddim budd o ran ansawdd yr amgylchedd i feicwyr/cerddwyr o ran estheteg, sŵn, ac ansawdd mannau cyhoeddus | Ni ddisgwylir effaith sylweddol ar ddefnyddwyr eraill y ffyrdd | | **0** | Disgwylir na fydd dim neu nemor ddim newid moddol ac nid yw'r cynllun yn gysylltiedig â rhaglen newid ymddygiad |
| **-1** | • Mae'r cynnig yn galw am lwybr teithio llai uniongyrchol na'r un presennol<br>• Mae'r llwybr teithio yn cyflwyno pwyntiau oedi | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd | Gall y cynigion arwain at fwy o wrthdrawiadau | Gall ostwng lefel y cysur i feicwyr/ cerddwyr | Mae'r cynigion yn diraddio ansawdd yr amgylchedd i feicwyr/cerddwyr o ran estheteg, sŵn, ac ansawdd mannau cyhoeddus | Disgwylir effaith negyddol sylweddol ar ddefnyddwyr eraill y ffyrdd (h.y. colli mannau parcio preswylwyr, rhai tagfeydd ychwanegol) | | **-1** | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd |
| **-2** | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd | Disgwylir effaith negyddol sylweddol iawn ar ddefnyddwyr eraill y ffyrdd (h.y. tagfeydd difrifol, yn | | **-2** | Yn annhebygol o ddigwydd mewn gwirionedd |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | enwedig i drafnidiaeth gyhoeddus, colli mannau parcio mewn ardaloedd manwerthu, cyfyngiadau ar lwytho | | | |